# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2823A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 6

Rheoli adnoddau ariannol 13

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig cam dau yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fe wnaeth ein hadroddiad asesu strwythuredig cam un ar gyfer 2021 ystyried trefniadau cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth a sut y mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Fe wnaeth pandemig COVID-19 hi'n ofynnol i gyrff y GIG fynd ati'n gyflym i addasu eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau penderfynu i ymateb i'r ymchwydd yn y galw brys o ganlyniad i COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Fe wnaeth ein hadroddiad ar asesiad strwythuredig 2020 ystyried trefniadau llywodraethu diwygiedig yr Ymddiriedolaeth ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau parhaus a gyflwynir gan COVID-19, gan hefyd ddechrau bwrw ymlaen â chynlluniau i ailosod ac adfer gwasanaethau yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig. Felly, cafodd ein gwaith asesu strwythuredig yn 2021 ei ddylunio yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig gan felly sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Mae ail gam ein hasesiad strwythuredig yn 2021 wedi ystyried sut y mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu dros y 12 mis diwethaf. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi cael ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o'r pandemig yn dylanwadu ar drefniadau at y dyfodol i sicrhau llywodraethu da a chyflawni gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o'r modd y mae'r Bwrdd wedi bod yn craffu ar ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22.

## Negeseuon allweddol

5 Ar y cyfan, canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei llywodraethu'n dda gyda threfniadau eglur, effeithiol i reoli ei chyllid.**

6 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu da a addasodd yn dda i'r pandemig. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu ac addasu ei dull yn rheolaidd ac mae wedi cadw elfennau a oedd yn gweithio'n dda. Mae pwyllgorau a ataliwyd yn dechrau dod yn weithredol unwaith eto a darparu modd i graffu'n fanylach ar

eitemau a oedd wedi'u gohirio neu eu trosglwyddo i gylch gwaith pwyllgorau eraill yn flaenorol. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn gwneud gwaith craffu da mewn cyfarfodydd ac mae ansawdd gwybodaeth a'r modd y'i cyflwynir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n dda. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i wella'i threfniadau llywodraethu trwy ei model llywodraethu integredig.

7 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i reoli ei hadnoddau ariannol ac mae'n parhau i gyflawni ei dyletswyddau ariannol o un flwyddyn i'r llall. Mae rheolaethau ariannol yn effeithiol ac mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth ariannol eglur, amserol i fonitro'i pherfformiad ac adrodd arno.

# Argymhellion

8 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Mynediad y cyhoedd at recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd**<br>A1 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y recordiad fideo o un o gyfarfodydd y Bwrdd ar goll o wefan yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cryfhau'r broses ar gyfer cyhoeddi recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd mewn modd amserol. |

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

9 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth tra'r oedd yn parhau i ymateb i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig.

10 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei llywodraethu'n dda gydag ymrwymiad eglur i wella'n barhaus a sefydlu trefniadau llywodraethu da ar draws ei busnes.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

11 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i gynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau'n effeithiol ac mewn modd tryloyw a'i bod wrthi ar hyn o bryd yn treialu prosesau llywodraethu integredig newydd i gryfhau trefniadau presennol ymhellach**.

12 Caiff cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau'r Ymddiriedolaeth eu cynnal yn rhithwir gyda chyfuniad o bobl yn mynychu o bell neu mewn ystafelloedd cyfarfod gan gadw pellter cymdeithasol. Caiff cyfarfodydd y Bwrdd eu darlledu'n fyw gyda recordiadau ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddarach. Fodd bynnag, gall gymryd peth amser i recordiadau ymddangos ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Er enghraifft, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ym mis Awst 2021, nid oedd recordiad mis Mai ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ffrydio cyfarfodydd ei phwyllgorau Pobl a Datblygu Sefydliadol; Ymchwil a Gwybodaeth; ac Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn fyw, ond nid yw wedi pennu dyddiad ar gyfer gwneud hynny eto.

13 Mae Uned Fusnes y Bwrdd yn parhau i gynhyrchu cofnodion da sy'n rhoi crynodeb cywir o drafodaethau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Caiff papurau'r Bwrdd a phwyllgorau eu cyhoeddi cyn cyfarfodydd ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Caiff cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau eu cyhoeddi ar wefan yr Ymddiriedolaeth gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf. Unwaith y maent wedi'u cadarnhau, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi fersiynau terfynol o'i chofnodion ar y wefan.

14 Mae'n glir i Gadeiryddion beth yw diben pob eitem fusnes ac maent yn aildrefnu agendâu'n gyflym i ymateb i unrhyw faterion cysylltedd sy'n digwydd yn ystod cyfarfodydd. Ym mhob cyfarfod, mae cadeiryddion yn atgoffa'r rhai sy'n bresennol am foesau cyfarfodydd rhithwir ac yn gosod y cywair ar gyfer trafodaeth adeiladol. Canfu ein harsylwadau ni ar gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fod cyfarfodydd yn cael eu rheoli'n dda gan gadeiryddion sy'n helpu i ffocysu'r drafodaeth ar faterion allweddol ac yn annog pawb i gyfrannu.

15 Ym mis Chwefror 2021, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo model llywodraethu integredig yr Ymddiriedolaeth a thri maes busnes i dreialu'r dull. Mae a wnelo llywodraethu integredig â chydgysylltu systemau, gweithdrefnau ac adroddiadau fel bod llywodraethu da'n cael ei sefydlu'n well ar draws sefydliadau. Mae'r

Ymddiriedolaeth wedi dynodi y bydd ei model llywodraethu integredig yn pwysleisio pwysigrwydd diwylliant ac ymddygiadau fel bod staff ar bob lefel yn deall llywodraethu da ac yn cymryd cyfrifoldeb amdano. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar y cynnydd o ran rhoi'r model llywodraethu integredig ar waith wrth ei Phwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Hyd yma, mae wedi cwblhau dau brosiect peilot ond mae wedi gorfod gohirio'r trydydd mewn gwasanaethau sgrinio oherwydd pwysau ar y gwasanaeth. Mae swyddogion yn paratoi cynllun cyflawni yn seiliedig ar y ddau brosiect peilot ac ymgysylltu ehangach â staff ar draws y sefydliad.

16 Y llynedd, eglurodd ein hadroddiad asesu strwythuredig fod yr Ymddiriedolaeth wedi symleiddio ei threfniadau ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau ym mis Mawrth 2020 i ymateb i COVID-19. O ganlyniad, cafodd y Pwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth, a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol eu hatal am y tro. Cafodd busnes pwysig ei drosglwyddo i gylch gwaith y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adlewyrchu'r newidiadau hyn yn ei rheolau sefydlog a oedd yn nodi'n glir beth oedd y trefniadau dros dro ac yn nodi meysydd busnes a oedd yn llai o flaenoriaeth ac yn cael eu gohirio. Canfuom fod y trefniadau dros dro'n gweithio'n dda ac yn cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio ar feysydd allweddol ar gyfer craffu a phenderfynu. Mae cadeiryddion yn dal i wahodd pobl sy'n bresennol i rannu sylwadau am ba mor dda y gweithiodd cyfarfodydd trwy gyfrwng neges e-bost. Mae'n amlwg bod Cadeiryddion yn mynd ati'n frwd i geisio adborth ac yn dal i fyfyrio ynghylch meysydd i'w gwella.

17 Fe adolygodd yr Ymddiriedolaeth drefniadau ei phwyllgorau ym mis Gorffennaf 2020, mis Hydref 2020 a mis Chwefror 2021. Ym mis Hydref 2020, fe grëodd Grŵp Cynghori ar Bobl i gynghori'r Bwrdd. Ym mis Chwefror 2021, fe gytunodd yr Ymddiriedolaeth i adfer y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2021. Fe adolygodd yr Ymddiriedolaeth ei rheolau sefydlog ym mis Gorffennaf 2020 a mis Mawrth 2021 hefyd ac fe wnaeth fân newidiadau iddynt. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella bellach wedi craffu ar eitemau busnes a ohiriwyd yn flaenorol. Fe ataliodd yr Ymddiriedolaeth ei Phwyllgor Ymchwil a Gwybodaeth am ran helaeth o 2020 a 2021, gan drosglwyddo busnes pwysig i gylch gwaith pwyllgorau eraill. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn dechrau datblygu rhaglen waith ar gyfer y Pwyllgor yn hydref 2021 lle mae'n bwriadu adolygu diben a chylch gwaith y Pwyllgor ochr yn ochr â diben a chylch gwaith y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth a phennu dyddiad i gyfarfodydd ddechrau.

18 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymegnïo i ddarparu gwybodaeth hygyrch o ansawdd da am ei pherfformiad, ar gyfer ei Bwrdd a'r cyhoedd. Mae'r Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd yn offeryn gwerthfawr i roi cymorth i graffu ac mae'r Ymddiriedolaeth yn ychwanegu data newydd lle y bo'n berthnasol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu ac addasu'r ffordd y mae'n defnyddio'r dangosfwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau i sicrhau ei fod yn ategu trafodaethau ynglŷn ag agweddau penodol ar gyflawni. Fel a nodwyd gennym y

llynedd, mae swyddogion yn parhau i ddarparu cyflwyniadau llafar eglur sy'n nodi materion penodol neu danberfformiad. Mae gwybodaeth ysgrifenedig yn eglur, gyda dalenni eglurhaol sy'n nodi diben dogfennau ac asesiadau perthnasol o'r effaith a gwblhawyd. Yn y misoedd nesaf, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu diwygio'i dalenni eglurhaol i gyfeirio'r darllenydd mewn modd mwy eglur at wybodaeth allweddol ym mhob dogfen.

19 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu cadw rhai o'i threfniadau COVID ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cyfarfodydd mwy mynych (bob wyth wythnos) gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'i hagendâu â ffocws pendant. Fe dreialodd yr Ymddiriedolaeth arddull newydd ar gyfer agendâu yn 2020 ar gyfer holl gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau sy'n rhoi eitemau ar gyfer sicrwydd ar ddechrau cyfarfodydd i ganiatáu digon o amser ar gyfer trafodaeth rymus. Mae eitemau ar gyfer cymeradwyaeth gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd blaenorol yn cael sylw'n hwyrach ar yr agenda. Mae agendâu yn aml yn cynnwys eitemau i'w nodi nad ydynt yn cael eu trafod oni bai bod ar aelod o'r pwyllgor eisiau gofyn cwestiwn. Mae Uned Fusnes y Bwrdd yn adolygu eitemau i'w nodi i sicrhau nad ydynt yn osgoi cael eu trafod yn rheolaidd lle byddai o fudd craffu'n fwy arnynt. Fe welsom ni fod yr agendâu â ffocws pendant yn offeryn effeithiol i reoli'r amser a lefelau egni mewn cyfarfodydd ac yn ei gwneud yn bosibl craffu'n dda lle mae angen hynny fwyaf. Yn arbennig, fe grëodd yr agendâu newydd amser ychwanegol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol drafod meysydd busnes penodol yn fwy manwl trwy adroddiadau 'at wraidd y mater' ar lywodraethu gwybodaeth, risg a seiber-ddiogelwch.

20 Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi llenwi ei holl swyddi gwag ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd ar gyfer Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Pobl a Datblygu Sefydliadol, ac Ymchwil a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i gyd yn eu swyddi erbyn hyn. Hefyd, fe benododd yr Ymddiriedolaeth dri Chyfarwyddwr Anweithredol newydd sy'n darparu safbwyntiau ffres gwerthfawr a chyfle i aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau fyfyrio ynghylch ffyrdd o wneud pethau'n wahanol. Fe wnaeth sawl un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol sylwadau am ymagwedd gefnogol, 'drws agored' cadeiryddion a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd yr Ymddiriedolaeth wedi diweddaru ei chofrestr buddiannau i gynnwys rhai, ond ni pob un, o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd.

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n effeithiol â'i Bwrdd ac yn amlwg yn gwerthfawrogi cyfraniadau unigol aelodau. Y llynedd, fe welsom fod sgiliau a gwybodaeth Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi datblygu'n gyflym yn ystod ymateb yr Ymddiriedolaeth i COVID-19. Ochr yn ochr â Chyfarwyddwyr Gweithredol, mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi creu diwylliant cadarnhaol o graffu'n drylwyr gan ganolbwyntio ar ddatrysiadau.

22 Cafodd cyfarfodydd Tîm Gweithredol Busnes yr Ymddiriedolaeth eu hatal am gyfnod byr yn 2020 tra'r oedd ei chell reoli Aur yn arwain yr ymateb i COVID-19. Fe ailddechreuodd cyfarfodydd y Tîm Gweithredol Busnes ym mis Mehefin 2020 ac fe

barhaodd y gell reoli Aur i gwrdd tan ddiwedd mis Awst 2021 i oruchwylio'r ymateb o ran diogelu iechyd.

23 Ochr yn ochr ag asesiad strwythuredig y llynedd, fe gwblhaodd y tîm archwilio mewnol adolygiad ymgynghorol o drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer COVID-19 ac fe ganfu'r adolygiad hwnnw gyfleoedd bach ar gyfer gwella yng nghyd-destun cymeradwyaeth gadarnhaol gan mwyaf i drefniadau'r Ymddiriedolaeth. Fe baratôdd yr Ymddiriedolaeth gynllun gweithredu i roi cyngor y tîm archwilio mewnol ar waith. Ym mis Ebrill 2021, canfu adolygiad dilynol y tîm archwilio mewnol fod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi'r gwelliannau yn ei chynllun gweithredu ar waith i raddau helaeth.

## Cynllunio ar gyfer adferiad[1]

24 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau manwl i adfer ei gwasanaethau, gan gynnwys trefniadau i ystwytho adnoddau staff i ymateb i ymchwyddiadau mewn heintiau COVID-19 os bydd angen**.

25 Trafododd y Bwrdd gynllun gweithredol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-22 (ei Chynllun Blynyddol) yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2021 ac fe'i cymeradwyodd yn amodol ar newidiadau a ddogfennwyd yn y cyfarfod. Gwelsom graffu trylwyr ar y Cynllun gan y Bwrdd. Yn arbennig, fe wnaeth aelodau gwestiynu natur gyraeddadwy rhai o'r cerrig milltir. O ganlyniad, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu cerrig milltir ac adnoddau, gan estyn rhai graddfeydd amser ac adnabod cyllid ychwanegol y mae ei angen arni i adfer ei rhaglenni sgrinio. Rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth ffurfiol i'r Cynllun Blynyddol diwygiedig, y Cynllun Ariannol a'r Fframwaith Rheolaeth Gyllidebol yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2021. Wrth baratoi'r Cynllun Blynyddol, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu graddfeydd amser i gyrraedd unrhyw gerrig milltir a oedd yn hwyr yn cael eu cyrraedd o'i Gynllun blaenorol ar gyfer Chwarteri 3 a 4 a chynnwys cerrig milltir diwygiedig yn y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys rhesymau dros oedi wrth gyrraedd cerrig milltir yn ei hadroddiadau integredig ar berfformiad ar gyfer y Bwrdd.

26 Mae gan y Bwrdd ffocws clir ar daro cydbwysedd rhwng yr ymateb parhaus o ran diogelu iechyd ar y naill law ac adferiad sefydliadol, yn enwedig o ran gwasanaethau sgrinio, ar y llaw arall. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Grŵp Cydgysylltu Adferiad gweithredol i ddwyn ynghyd ei chynlluniau adfer a rheoli'r galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd, sef adferiad ar y naill law a'r ymateb o ran diogelu iechyd ar y llaw arall. Bydd y Grŵp yn cydgysylltu dychweliad staff i'w rolau

[1] Mae'n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn. Cafodd y broses CTCI ar gyfer 2020-2023 ei hatal dros dro gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, i alluogi cyrff y GIG i ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd yn ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021. Rhoddodd ein hadroddiad ar asesiad strwythuredig cam un 2021 ystyriaeth i drefniadau cynllunio gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

parhaol ac yn adolygu adnoddau yng ngoleuni codiadau mewn cyfraddau heintio â COVID yn y dyfodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynlluniau adfer penodol ar gyfer ei rhaglenni sgrinio i danategu ei Chynllun Blynyddol a nodi sut y bydd yn cyflawni gweithgarwch ychwanegol i fynd i'r afael ag ôl-groniadau sydd wedi deillio o atal gwasanaethau dros dro.

27 Cynhaliodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella astudiaeth 'at wraidd y mater' o'r gwaith i adfer gwasanaethau sgrinio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2021. Rhoddodd swyddogion wybodaeth fanwl am berfformiad a'r ffactorau sy'n effeithio arno ym mhob rhaglen sgrinio. Yn arbennig, mae diffyg lleoliadau a oedd yn cael eu darparu'n flaenorol gan fyrddau iechyd, a niferoedd is yn cael eu sgrinio oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol wedi cyfyngu ar weithgarwch. Fe eglurodd swyddogion y camau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u cymryd i reoli'r effaith ar gleifion, gan gynnwys blaenoriaethu pobl y gwyddys eu bod yn wynebu mwy o risg o ddatblygu'r clefyd y mae'r rhaglen yn sgrinio amdano, sicrhau lleoliadau newydd, a chyflwyno mesurau i leihau nifer y bobl nad ydynt yn cadw apwyntiadau sgrinio. Yn fwy eang, caiff perfformiad gwasanaethau sgrinio'i drafod ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

28 Y llynedd, nododd ein hasesiad strwythuredig fod yr Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ddysgu ac esblygu trwy gydol y pandemig. Mae Cynllun Blynyddol 2021-22 yn parhau â'r ffocws ar ddysgu sefydliadol ond mae hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu ffyrdd newydd o weithio i roi cymorth gydag adferiad a chyflawni yn y dyfodol. Mae cynlluniau'n cynnwys prosiect Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol sy'n seiliedig ar ymgysylltiad staff yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar dechnoleg newydd. Ym mis Gorffennaf 2021, cafodd y Bwrdd yr adroddiad cyntaf ar gynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Blynyddol. Ar yr adeg hon, roedd y rhan fwyaf o gerrig milltir ar y trywydd iawn i gael eu cyrraedd ac roedd 12% wedi'u cwblhau.

## Systemau sicrwydd

29 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da i reoli risg a darparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch ei gwasanaethau**.

### Rheoli risg

30 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer rheoli risg sy'n gyson â'i chynllun blynyddol.**

31 Y llynedd, canfu ein hasesiad strwythuredig fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer rheoli risg a oedd wedi addasu'n dda i ymateb i COVID-19. Mae trefniadau eleni yr un fath gan mwyaf ac yn parhau i weithio'n dda. Mae'r Tîm Gweithredol Busnes yn dal i drafod y cofrestrau risgiau corfforaethol a strategol a danategir gan gofrestrau risgiau cyfarwyddiaethol ac isadrannol. Mae cyfarwyddwyr gweithredol ac isadrannol yn gyfrifol am adolygu eu cofrestrau risgiau a sicrhau bod cynlluniau lliniaru yn eu lle. Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 eu hymgorffori yn y cofrestrau risgiau corfforaethol a strategol. Mae'r

Ymddiriedolaeth yn parhau i rannu Asesiadau Hyder Cyflawni rheolaidd gyda'r Bwrdd sy'n nodi'r effeithiau posibl o ran amser, costau ac ansawdd y gallai risgiau allweddol eu cael ar gyflawni ei chynllun gweithredol.

32 Ym mis Mai 2021, fe gyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei hadolygiad blynyddol o'i system rheoli risg i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Nododd yr adolygiad heriau a oedd yn gysylltiedig â bod â digon o amser ac adnoddau i drafod risg; defnyddio pedair system wahanol ar gyfer rheoli risg; a chyda System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru Datix. Nododd yr Ymddiriedolaeth ei chynlluniau i fynd i'r afael â'r heriau gan gynnwys paratoi Cynllun Gwella Rheoli Risg. O fis Ionawr 2021, bu'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys gwybodaeth am risgiau corfforaethol yn ei Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd. Mae'r Dangosfwrdd yn dangos pa mor agored yw'r Ymddiriedolaeth i risg ar hyn o bryd yn erbyn y sefyllfa darged o ran bod yn agored i risg bob mis i helpu aelodau'r Bwrdd i ddeall lefel gyfredol y risg y mae angen i'r sefydliad ei rheoli. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad o ran llywodraethu gwybodaeth a seiber-ddiogelwch a rheoli risgiau cysylltiedig.

33 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu a diweddaru ei pholisi a gweithdrefn rheoli risg yn 2020. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol gymeradwyo'r weithdrefn ym mis Hydref 2020 ac fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r polisi ym mis Tachwedd 2020. Mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth weithio gyda'i Bwrdd i lunio Datganiad Blynyddol o Barodrwydd i Dderbyn Risg. Fe wnaeth y Bwrdd adolygu'r parodrwydd i dderbyn risg mewn perthynas â risg yr Ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd ym mis Ebrill 2021, a'r cyd-destun risg ehangach ym mis Mehefin 2021. Fe gymeradwyodd risgiau o fewn y gofrestr risgiau strategol ym mis Mehefin 2021 ac mae'n defnyddio'r wybodaeth i ffurfio'i Ddatganiad Blynyddol o Barodrwydd i Dderbyn Risg.

34 Mae Cynllun Blynyddol 2021-22 yn nodi cynlluniau'r Ymddiriedolaeth i fynd ati'n well i gynnwys risg, sicrhau gwerth, gwireddu manteision, ac ansawdd a gwella fel rhan o'i fframwaith penderfynu. Gan hynny, mae'n amcanu at adolygu ei dulliau lle mae risgiau corfforaethol a strategol yn y cwestiwn yn ddiweddarach yn 2021. Ym mis Ebrill 2021, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth adolygu ac alinio'i risgiau strategol i adlewyrchu Cynllun Blynyddol 2021-22.

## Sicrhau ansawdd a diogelwch[2]

35 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu sicrwydd ynghylch diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaethau a bod ganddi gynlluniau i fynd ati'n well i sefydlu ansawdd a gwelliant ar draws y sefydliad.**

36 Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth dda am ddiogelwch staff ar gyfer y Bwrdd. Yng nghyfnod cynnar y pandemig, cymerodd y Bwrdd llawn gyfrifoldeb am oruchwylio diogelwch a lles staff, gyda chyngor rheolaidd gan y Grŵp Cynghori ar Bobl o fis Hydref 2020. Ym mis Chwefror 2021, cymerodd y Bwrdd sicrwydd o adroddiad a oedd yn nodi'r mesurau y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u cymryd i sicrhau diogelwch ei staff gan gynnwys monitro cydymffurfiaeth â'i hasesiadau risg ar gyfer y gweithle, adolygiadau o achosion unigol yn y gweithle, a chymorth i staff sy'n gweithio mewn lleoliadau penodol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wella'r wybodaeth yn ei Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd i roi darlun eglur o faterion sy'n effeithio ar staff, gan gynnwys niferoedd y staff rheng-flaen sydd wedi cael y ddau frechiad COVID-19.

37 Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo Strategaeth Ansawdd a Gwella newydd yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2021-2030 ym mis Mai 2021. Nod y Strategaeth yw sefydlu diwylliant o ansawdd, diogelwch a gwella'n barhaus ar draws y sefydliad. Mae wedi'i bwriadu i ategu Strategaeth Hirdymor yr Ymddiriedolaeth a sicrhau ei bod yn cwrdd â disgwyliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Bydd y Strategaeth Ansawdd a Gwella'n gweithio ochr yn ochr â'r Strategaeth Pobl a'r model llywodraethu integredig (gweler paragraff 15). Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun cyflawni sy'n nodi gwaith a fydd yn cael ei gyflawni dros y tair blynedd nesaf ac mae'n bwriadu adolygu'r Strategaeth yn 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys gwaith i ddatblygu mesurau perfformiad i ddangos deilliannau ac effeithiolrwydd prosesau. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu i sefydlu hyb ansawdd a gwella i rannu gwersi a ddysgwyd, offer a chyngor ar draws y sefydliad.

38 Ym mis Hydref 2020, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth asesu'r meysydd blaenoriaeth yn ei Chynllun Blynyddol yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal i bwyso a mesur ansawdd a diogelwch ar draws y sefydliad. Ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth, fe nododd arfer da a meysydd ar gyfer gwella. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth grynhoi sgoriau ar draws y meysydd blaenoriaeth i roi sgôr ar y cyfan ar gyfer y sefydliad i ddarparu llinell sylfaen i fesur cynnydd yn y dyfodol.

39 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n dal i gadw ffocws cryf ar ddiogelwch defnyddwyr gwasanaethau ac ansawdd gwasanaethau, yn enwedig y

[2] Rydym wedi cyfyngu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud ar drefniadau llywodraethu ansawdd fel rhan o'n hasesiad strwythuredig yn 2021 gan ein bod yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau llywodraethu ansawdd yn yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau sydd o ansawdd da, yn ddiogel ac yn effeithiol. Rydym yn amcanu at adrodd yn ôl ar ein canfyddiadau'n ddiweddarach yn 2021.

risgiau sy'n gysylltiedig ag ailgychwyn rhaglenni sgrinio'r sefydliad. Fe welsom graffu grymus a chyflwyniadau eglur, amserol gan swyddogion ar gyfer y pwyllgor.

### Tracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio ac adolygu

40 Canfuom **fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau i fonitro ei chynnydd o ran ymateb i argymhellion archwilio mewnol ond bod angen iddi ystyried ffyrdd o fynd ati'n rheolaidd i adrodd ar gynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion allanol.**

41 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn monitro cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion mewnol ac allanol trwy log archwilio. Cyflwynir y log yn chwarterol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol gyda dalen eglurhaol sy'n nodi'r eitemau i'w cau ym mhob chwarter. Mae'r log ei hun yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob cam gweithredu fel bod aelodau'n gallu monitro cynnydd yn eglur a chael eu sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cwblhau cyn rhoi cymeradwyaeth i gau eitemau. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n cael diweddariadau ar argymhellion sy'n deillio o archwilio clinigol mewn diweddariadau ar ei gynllun archwilio clinigol ond nid yw'n defnyddio log archwilio clinigol ar hyn o bryd[3].

# Rheoli adnoddau ariannol

42 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, ei rheolaethau ariannol a'i threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

43 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn rheoli ei hadnoddau ariannol yn dda a bod ganddi drefniadau da i fonitro'i gweithgarwch ariannol ac adrodd arno.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

44 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei dyletswyddau ariannol ar ddiwedd 2020-21 a bod ganddi gynllun ariannol eglur i ddarparu ac adfer gwasanaethau yn 2021-22.**

45 Ar ddiwedd 2020-21, fe gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd gyda gwarged bach o £32,000. Cafodd COVID-19 effaith sylweddol ar gostau refeniw a gwariant yr Ymddiriedolaeth a nodwyd yn ei chynllun ariannol ar gyfer 2020-21. Yn ystod 2020-21, cafodd £47.1 miliwn mewn cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru oherwydd COVID-19.

[3] Bydd ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth yn bwrw golwg fanylach ar y modd y mae'n goruchwylio'i rhaglen archwilio clinigol.

46 Fe gyfyngodd y pandemig ar allu'r Ymddiriedolaeth i wireddu rhai o'r arbedion wedi'u cynllunio yn ei chynllun ariannol. Erbyn mis 12, roedd cyfanswm yr arbedion a oedd heb eu cyflawni gan yr Ymddiriedolaeth yn £0.145 miliwn, y gwnaeth ei wrthbwyso â thanwariannau ar eitemau heblaw cyflogau. Nododd yr Ymddiriedolaeth rai gostyngiadau net mewn costau yn ystod 2020-21 gan bod rhai gwasanaethau wedi'u hatal neu eu cwtogi. Defnyddiodd yr arbedion i ariannu costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â chydymffurfio â mesurau COVID-19 wrth iddi ddechrau adfer gwasanaethau.

47 Fe gynyddodd dyraniad cyllid craidd yr Ymddiriedolaeth gan Lywodraeth Cymru o £106.3 miliwn yn 2020-21 i £117 miliwn yn 2021-22. Hefyd, mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys £1.1 miliwn o incwm disgwyliedig gan Lywodraeth Cymru i ariannu rhaglen adfer sgrinio'r Ymddiriedolaeth. Fe gytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cyllid ym mis Medi 2021. Yn ychwanegol at gyllid Llywodraeth Cymru, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ariannu £0.7 miliwn o'r costau adfer o'i chyllidebau sgrinio.

48 Mae'r cynllun ariannol hefyd yn cynnwys cyllid cylchol o £6.147 miliwn gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid gwasanaeth diogelu iechyd yr Ymddiriedolaeth sydd bellach yn rhan o'i dyraniad cyllid craidd. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo achos busnes yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gwasanaeth ym mis Chwefror 2021 a fydd yn ariannu 109 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn datblygu trefniadau llywodraethu i oruchwylio'r broses o roi ei hachos busnes ar waith.

49 Ym mis Gorffennaf 2021, mae adroddiad ariannol tri mis yr Ymddiriedolaeth yn dangos ei bod yn debygol o gyflawni ei dyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ym mis tri, roedd gan yr Ymddiriedolaeth warged net bach o £29,000.

## Rheolaethau ariannol

50 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod â rheolaethau da i fonitro gweithgarwch ariannol, ac i atal a chanfod twyll ac ymateb iddo**.

51 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i fod â rheolaethau ariannol effeithiol ac mae bellach wedi dychwelyd at ei chynllun dirprwyo o'r cyfnod cyn COVID. Mae'n adrodd yn rheolaidd wrth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar gaffael, colledion a thaliadau arbennig, ac atal twyll. Mae adroddiadau caffael yn nodi'n glir beth yw nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol ac Awdurdodiadau Dyfynbris Unigol a'r rhesymau pam na wnaeth swyddogion ddilyn y weithdrefn gaffael safonol. Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth leihau nifer y Gweithredoedd Tendr Unigol ac Awdurdodiadau Dyfynbris Unigol yn sylweddol tuag at ddiwedd 2018, ond fe ddechreuodd y niferoedd gynyddu yn ystod 2020-21, yn bennaf oherwydd caffael gan Gydweithrediad y GIG[4]. Caiff y gwerth a'r rhesymau dros wyro oddi wrth

[4] Yr Ymddiriedolaeth sy'n lletya Cydweithrediad GIG Cymru.

weithdrefnau caffael safonol eu nodi'n glir yn adroddiadau caffael yr Ymddiriedolaeth y mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn craffu arnynt.

52 Rhoddodd adolygiad y tîm archwilio mewnol o systemau ariannol yn yr Ymddiriedolaeth ym mis Chwefror 2021 sicrwydd sylweddol i'r rheolaethau ariannol a archwiliwyd ganddo mewn perthynas â'r gofrestr asedau cyfalaf, anfonebu a rheoli arian parod. Yn yr un modd, dywedodd adolygiad y tîm archwilio mewnol o drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ar gyfer COVID-19 ym mis Awst 2020 fod gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau ariannol da ac y dylai gadw ei thrywydd tystiolaeth o benderfyniadau ariannol.

53 Ym mis Mehefin 2021, rhoddodd adolygiad archwilio mewnol o oriau ychwanegol a gordaliadau sicrwydd cyfyngedig i drefniadau'r Ymddiriedolaeth i staff gofnodi oriau ychwanegol a weithiwyd a chodi amdanynt. Y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Pobl a Datblygu Sefydliadol sy'n gyfrifol am y cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion archwilio mewnol.

54 Canfu ein hadolygiad o drefniadau atal twyll yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2020[5] fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i atal twyll, bod ganddi drefniadau addas i roi cymorth i atal a chanfod twyll a'i bod yn gallu ymateb yn briodol lle mae twyll yn digwydd.

## Monitro ac adrodd

55 Canfuom **fod yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth eglur a hygyrch i fonitro'i pherfformiad ariannol ac adrodd arno.**

56 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd ar berfformiad ariannol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd gan ddefnyddio'i Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd ac adroddiad integredig ar berfformiad sy'n cyd-fynd ag ef. O fis Ionawr 2021 bu hefyd yn cyflwyno adroddiad cyllid ar wahân a chopi o'r Ffurflen Fonitro Fisol i'r Bwrdd[6]. Ochr yn ochr â chyflwyniadau ar lafar gan swyddogion, mae'r adroddiadau'n darparu mwy o gyd-destun mewn perthynas â'r rhesymau dros orwariannau neu danwariannau a'r ffactorau sy'n effeithio ar arbedion wedi'u cynllunio. Cyhoeddir yr wybodaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth gyda phapurau ei Bwrdd.

57 Mae gwybodaeth ariannol yn gyson ar draws y Dangosfwrdd, yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad, Adroddiadau Cyllid a'r Ffurflen Fonitro Fisol. Mae'r wybodaeth yn glir ac yn cael ei chyflwyno'n dda fel bod y Bwrdd yn gallu gweld yr effaith gyfredol a'r effaith a ragwelir o ganlyniad i orwariannau a thanwariannau gan bob cyfarwyddiaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwahanu gwariant COVID-19 i

[5] Archwilio Cymru, Effeithiolrwydd Trefniadau Atal Twyll yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Medi 2020.

[6] Mae holl gyrff y GIG yn cyflwyno Ffurflen Fonitro Fisol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn eu cynlluniau.

gyfarwyddiaeth COVID benodol. Mae'r Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd yn cynnwys data cynhwysfawr ac amserol ar:

- y sefyllfa ariannol gronnus;
- amrywiant cronnus mewn gwariant fesul cyfarwyddiaeth yn erbyn y gyllideb flynyddol ac amrywiant mewn gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y gyllideb;
- amrywiant mewn gwariant a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn;
- gwariant cronnus ar gostau asiantaeth a banc;
- gwariant yn y flwyddyn hyd yma o gronfeydd buddsoddi cylchol;
- gwariant yn y flwyddyn hyd yma o'i dyraniadau cyfalaf strategol a dewisol;
- sefyllfa gyfredol o ran llifoedd arian a thueddiadau dros y flwyddyn ariannol, rhagolygon ar gyfer llifoedd arian a dadansoddiad o dderbyniadau a thaliadau;
- sefyllfa gyfredol y fantolen;
- dyledwyr cyfredol; a hefyd
- perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn mesurau perfformiad polisi tâl y sector cyhoeddus.

# Atodiadau

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 1: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y Rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Mynediad y cyhoedd at recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd**<br>A1 Ar adeg ein hadolygiad, roedd y recordiad fideo o un o gyfarfodydd y Bwrdd ar goll o wefan yr Ymddiriedolaeth. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cryfhau'r broses ar gyfer cyhoeddi recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd mewn modd amserol. | **Argymhelliad wedi'i dderbyn**<br>Mae'r broses ar gyfer cyhoeddi'r recordiad o'r ffrwd fyw wedi cael ei chryfhau; mae gan Uned Fusnes y Bwrdd aelod penodol o'r tîm sy'n sicrhau bod y ddolen wedi cael ei diweddaru a'i llwytho i'r wefan, yn dilyn cysylltu â chydweithwyr yn y tîm cyfathrebu. Rydym yn ymrwymedig i lanlwytho recordiadau o fewn 2 ddiwrnod gwaith i'r cyfarfod, ac rydym wedi cyrraedd y targed hwn ar gyfer y ddau gyfarfod diwethaf. | Wedi'i gwblhau | Helen Bushell |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.